Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 51/2015

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o Teuluoedd yn Gyntaf Adroddiad Blwyddyn 3: Crynodeb Gweithredol

Medi 2015



# Gwerthusiad o Teuluoedd yn Gyntaf
# Adroddiad Blwyddyn 3: Crynodeb Gweithredol

**Julia Pye, Steven Ginnis, Alexander McCallum, Rowena Stobart (Ipsos MORI)**

**Korina Cox, Jenny Molyneux, Rachel Blades (Ecorys)**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Hayley Collicott
Yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
029 2082 3111
hayley.collicott@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 30 Medi 2015
ISBN 978-1-4734-4838-3
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

# Cynnwys

1.1 Cyflwyniad ........ 2
1.2 Y gwerthusiad ........ 3
1.3 Prif ganfyddiadau ........ 3
1.3.1 Rheolaeth genedlaethol ........ 3
1.3.2 Rheolaeth leol ........ 4
1.3.3 Cynnydd wrth weithredu Teuluoedd yn Gyntaf ........ 4
1.3.4 Effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar gynllunio gwasanaethau cymorth i deuluoedd ........ 6
1.3.5 Effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar y ffordd y mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cael eu darparu ........ 8
1.3.6 Effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar ganlyniadau teuluoedd ........ 9

## 1.1 Cyflwyniad

Mae’r crynodeb hwn yn cynnwys trosolwg o’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac yn crynhoi prif ganfyddiadau gwerthusiad o dair blynedd gyntaf gweithredu’r rhaglen yn llawn.

Yng Ngorffennaf 2012 cafodd Ipsos MORI ac Ecorys eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso rhaglen genedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2012-15. Dyma’r adroddiad olaf dan y contract gwerthuso tair blynedd hwn.

Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella’r ffordd y mae gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan awdurdodau lleol i deuluoedd yn cael eu cynllunio a’u gweithredu. Yn fwyaf arbennig, mae’n ceisio gwella profiadau teuluoedd drwy gynnig cefnogaeth sy’n diwallu anghenion penodol teuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion mewn teuluoedd. Mewn achosion lle mae teuluoedd yn cael cefnogaeth gan fwy nag un asiantaeth, y bwriad yw cael asiantaethau i weithio gyda’i gilydd fel bod teuluoedd yn derbyn pecyn cymorth cydlynol.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys pum prif elfen, gan gynnwys Fframwaith Asesu’r Teulu ar y Cyd (JAFF) i ddarparu gwerthusiad cynhwysfawr o anghenion teuluoedd, dull Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ar gyfer gweithio gyda theuluoedd, dull strategol o gomisiynu gwasanaethau cymorth i deuluoedd, a darpariaeth benodol ar gyfer teuluoedd sy’n cael eu heffeithio gan anabledd. Mae’r rhaglen hefyd yn cynnwys elfen dysgu gweithredol, er mwyn sicrhau bod dysgu lleol yn cael ei rannu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Un o brif egwyddorion y rhaglen yw y dylai gwasanaethau lleol gael eu comisiynu a’u cynllunio ar sail asesiad o anghenion lleol.

Adroddwyd yng ngwerthusiad Blwyddyn 1 bod rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol yn cydnabod, cyn i’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gael ei chyflwyno, bod lle i wella’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu i blant a theuluoedd, drwy wella effeithiolrwydd arferion gweithio.[1] Yn fwyaf arbennig, roedd cyfle i ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn fwy effeithlon drwy gydlynu’r asiantaethau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau i deuluoedd; i sicrhau mwy o gysondeb yn y gwasanaethau sy’n cael eu darparu i deuluoedd â phlant anabl; ac i gyflwyno dull mwy strategol o gomisiynu gwasanaethau. Yn ail flwyddyn y gwerthusiad canfuwyd bod staff a oedd yn ymwneud â gweithredu’r rhaglen, a theuluoedd a oedd yn derbyn gwasanaethau, yn cymeradwyo prif elfennau cynllunio Teuluoedd yn Gyntaf ac yn teimlo eu bod yn gwella ansawdd ac ystod y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig.[2]

Cyflwynwyd Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru ar adeg pan oedd lefel tlodi plant yn gymharol uchel yn y DU. Mae’r data poblogaeth diweddaraf, a adolygwyd yn yr adroddiad llawn, yn dangos bod Teuluoedd yn Gyntaf yn dal i roi sylw i angen ymhlith teuluoedd sy’n profi achosion a chanlyniadau byw mewn tlodi: er enghraifft, mae cyfraddau cyrhaeddiad academaidd yn is ymhlith plant o deuluoedd llai cyfoethog nag ymhlith plant o deuluoedd mwy cefnog ar bob lefel. Mae’r rhaglen yn rhan allweddol o ymdrech Llywodraeth Cymru i drechu tlodi plant, a chafodd ei chynllunio er mwyn rhoi sylw i’r amcanion strategol a nodwyd yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn 2011. Yr amcanion hyn yw atal tlodi a’i wneud yn llai tebygol yn yr hirdymor; helpu pobl i ddod allan o dlodi a manteisio ar gyfleoedd i gael gwaith; a lleihau effaith tlodi nawr, drwy gynnig cymorth i wella bywydau pobl sy’n byw mewn tlodi.

[1] http://gov.cymru/docs/caecd/research/131219-national-evaluation-families-first-year-1-report-en.pdf
[2] http://cdn.basw.co.uk/upload/basw_101850-8.pdf

## 1.2 Y gwerthusiad

Roedd y gwerthusiad tair blynedd yn ceisio ateb nifer o gwestiynau yn ymwneud â'r rhaglen, gan gynnwys: a yw cynllun y rhaglen yn addas i'r diben; asesiad o'r modd y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu; safon gweithredu'r rhaglen; effaith y rhaglen ar deuluoedd; ac effaith y rhaglen ar y boblogaeth yn gyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu'r rhaglen, cyn asesu canlyniadau gwaith awdurdodau lleol ar y ffordd y mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith; ac effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar deuluoedd. Mae'r dystiolaeth yn seiliedig ar ffynonellau amrywiol, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: adolygiad o adroddiadau cynnydd awdurdodau lleol; data gan awdurdodau lleol sy'n ymwneud â chanlyniadau teuluoedd sydd wedi cael budd o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf; arolwg ar-lein o 584 o randdeiliaid lleol a fu'n ymwneud â chynllunio a gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf; ymweliadau fel rhan o astudiaethau achos manwl â phedwar awdurdod lleol; ac ail ymweliadau fel rhan o astudiaethau achos â 21 o deuluoedd a dderbyniodd ymyriadau Teuluoedd yn Gyntaf.

Yn fwyaf penodol, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Adolygiad o'r cyd-destun polisi;
- Adolygiad o gynnydd wrth weithredu Teuluoedd yn Gyntaf;
- Asesiad o effeithiau a chanlyniadau'r rhaglen, dair blynedd ers ei rhoi ar waith;
- Ystyriaeth o gynllun y rhaglen, ac a yw'n addas i'r diben ac yn cyflawni ei nod mewn perthynas â'r sail resymegol dros ymyrryd; ac,
- Enghreifftiau o arferion da wrth weithredu Teuluoedd yn Gyntaf.

## 1.3 Prif ganfyddiadau

### 1.3.1 Rheolaeth genedlaethol

Mae rhanddeiliaid lleol yn edmygu arweiniad a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn fawr.[3] Drwy ymgynghori â thîm cenedlaethol y rhaglen gwelwyd eu bod yn cyfleu darlun clir o'r rhaglen a'r hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Erbyn trydedd flwyddyn y gwerthusiad roedd llawer o'r rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol yn cydnabod y byddai canllawiau mwy penodol, a mwy o oruchwyliaeth genedlaethol dros gynlluniau cyflawni awdurdodau lleol, wedi bod yn fuddiol ar ddechrau'r rhaglen. Mae'r gallu i gyflawni'r rhaglen yn effeithiol ar lefel leol yn dibynnu llawer ar wybodaeth arbenigol, yn ogystal ag ymateb i angen lleol; byddai mwy o arweiniad o'r canol ynglŷn â'r agweddau hynny ar y rhaglen lle nad oedd gan yr awdurdodau lleol y profiad na'r capasiti i gyflawni'n effeithiol wedi gwella effeithlonrwydd y rhaglen, a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru'n gynharach. Er enghraifft, dywedodd awdurdodau lleol eu

[3] Cymerodd aelodau amrywiol o'r staff ran yn yr arolwg rhanddeiliaid, gan gynnwys: aelodau o dimau craidd Teuluoedd yn Gyntaf; staff a oedd yn gweithio mewn awdurdodau lleol; staff a oedd yn gweithio i elusennau lleol a oedd yn ymwneud â darparu elfennau o'r rhaglen; staff a oedd wedi'u lleoli mewn amrywiol wasanaethau prif ffrwd lleol sy'n chwarae rhan yn y broses o weithredu'r rhaglen (e.e. ymwelwyr iechyd, athrawon ac ati.).

bod yn hurio ymgynghorwyr allanol i'w helpu gydag asesiadau o anghenion, y broses o gomisiynu prosiectau a chynllunio modelau cyflawni lleol.

Mae gofynion monitro cenedlaethol yn nodi bod angen i awdurdodau lleol adrodd am nifer o fesurau cynnydd allweddol bob chwarter, fel y prif fewnbynnau, allbynnau, a chanlyniadau.[4] Mae natur data monitro cenedlaethol yn golygu ein bod yn wynebu tipyn o her wrth geisio cymharu canlyniadau gwahanol awdurdodau lleol er mwyn dod i gasgliadau ynglŷn â pherfformiad a modelau gweithredu. Gallai gwahaniaethau ymddangosiadol mewn perfformiad - megis gwahaniaethau yn nifer y staff sy'n gweithredu'r rhaglen, a llif y teuluoedd - fod o ganlyniad i gynlluniau gwahanol rhaglenni lleol a/neu wahaniaethau yn y ffordd y mae canlyniadau teuluoedd yn cael eu mesur.  Mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y gall y tîm cenedlaethol a Rheolwyr Cyfrifon adnabod a herio tanberfformiad.

### 1.3.2 Rheolaeth leol

Mae timau lleol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata monitro er mwyn mireinio'r ffordd y mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chynllunio a'i gweithredu. Gwelir enghreifftiau ym mhob awdurdod lleol o staff yn mireinio'r ffordd y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu ar sail dadansoddiad o ddata monitro lleol.

Mae cydlynu lleol a chydgysylltu â rhaglenni eraill sy'n cynnig cymorth i deuluoedd yn fwy amlwg ar lefelau gweithredol ar hyn o bryd. Er hyn mae ychydig o awdurdodau lleol wedi llwyddo i sicrhau rheolaeth strategol ar y cyd ar draws rhaglenni cymorth i deuluoedd, ac yn yr achosion hyn gwelodd y tîm gwerthuso dystiolaeth o lai o ddyblygu gwaith a gwell defnydd o adnoddau.  Mae'r staff yn honni bod rheolaeth strategol ar y cyd hefyd wedi helpu i gael timau eraill i gefnogi dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar ymyrryd yn gynnar.

Yn ogystal â'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf, mae nifer o wahanol asiantaethau lleol - gan gynnwys, er enghraifft, athrawon, ymwelwyr iechyd a gweithwyr elusennol - yn ymwneud â darparu Teuluoedd yn Gyntaf drwy weithgareddau fel cyfeirio teuluoedd at JAFF, cymryd rhan mewn cyfarfodydd Tîm o Amgylch y Teulu, ac (mewn rhai awdurdodau lleol) gweithredu fel gweithwyr allweddol.  Er mwyn i'r rhaglen fod yn llwyddiannus, mae angen i awdurdodau lleol ymgysylltu ag asiantaethau lleol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rhaglen a'i phrosesau a'u bod yn barod i chwarae rhan weithredol yn y broses o weithredu'r rhaglen.  Yn ail flwyddyn y gwerthusiad gwelwyd lefelau uchel o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ymhlith darpar bartneriaid gweithredu, ond daethpwyd i'r casgliad y gellid gwella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad ymhlith staff nad ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol.  Mae data arolwg rhanddeiliaid o flwyddyn olaf y gwerthusiad yn dangos bod gan staff sy'n gweithio mewn sefydliadau ar wahân i awdurdodau lleol ddealltwriaeth gynyddol dda o'u rôl yn y broses o weithredu'r rhaglen.[5]  Er hyn, mae'n dal yn anodd ymgysylltu â staff yn y sector iechyd, yn enwedig ar lefel weithredol.  Mae timau Teuluoedd yn Gyntaf yn canfod ffyrdd o oresgyn yr heriau hyn, er enghraifft drwy ymgynghori ag ymarferwyr iechyd i ofyn am eu mewnbwn cyn cyfarfodydd TAF os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol.

### 1.3.3 Cynnydd wrth weithredu Teuluoedd yn Gyntaf

Mae gwariant ar draws prif elfennau'r rhaglen yn debyg i 2013/14: mae prosiectau a gomisiynwyd yn gyfrifol am 72% o wariant y rhaglen yn genedlaethol, a JAFF/TAF yn gyfrifol

---

[4] Er enghraifft, mae'r prif fewnbynnau'n cynnwys manylion staffio a materion ariannol; mae allbynnau'n cynnwys y stoc a llif teuluoedd drwy JAFF, TAF a phrosiectau a gomisiynwyd; mae canlyniadau'n cynnwys cynnydd wrth sefydlu systemau a chanlyniadau cymorth i deuluoedd.

[5] Mae cyfran y staff sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau y tu allan i awdurdodau lleol a ddywedodd bod rôl eu sefydliad wrth weithredu Teuluoedd yn Gyntaf 'wedi'i diffinio'n dda iawn' wedi cynyddu o 38% yn 2014 i 54% yn 2015.

am 18% o'i gwariant.  Gwasanaethau i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd (10%) a rhedeg setiau dysgu (0.4%) sy'n gyfrifol am weddill cyllideb y rhaglen.[6]

Erbyn Mawrth 2015, roedd cyfanswm o 216 o brosiectau'n cael eu gweithredu yn y 22 awdurdod lleol.[7]  Disgwylid y byddai'r prosiectau a oedd wedi cael eu comisiynu dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn newid o'r rhai a oedd yn cael eu rhedeg dan Cymorth, gan ganolbwyntio'n benodol ar nifer llai o brosiectau mwy sy'n fwy cydnaws ag anghenion y boblogaeth.  Dros gyfnod y rhaglen, mae awdurdodau lleol wedi aildrefnu'r gyfres o brosiectau y maent yn eu comisiynu: erbyn 2015, roedd llai na 10% o'r gwariant ar brosiectau yn cael ei wario ar gyn brosiectau Cymorth nad oeddent wedi newid.[8]  Ni ddigwyddodd y newid hwn fel ymateb unigol i asesiadau anghenion lleol. Yn hytrach, mae wedi esblygu dros gyfnod y rhaglen.  Fel arfer, mae awdurdodau'n comisiynu 'pecynnau' o brosiectau, pob un yn cael ei ddarparu gan gonsortia o ddarparwyr, ac yn cael eu cysoni ag amcanion lleol penodol. Efallai fod nifer fawr o ddarparwyr yn ymwneud â darparu cefnogaeth o hyd, ond mae defnyddio pecynnau'n helpu i wella cydweithrediad rhwng y darparwyr ym mhob pecyn, ac yn helpu awdurdodau lleol i leihau unrhyw ddyblygu rhwng darparwyr.

Mae arolwg rhanddeiliaid blynyddol y gwerthusiad yn awgrymu bod rhanddeiliaid lleol yn fodlon ar y cyfan â'r broses gomisiynu, ac yn fodlon bod y gwasanaethau sydd ar gael yn diwallu anghenion teuluoedd (mae 95% o'r rhanddeiliaid lleol yn dweud bod y gwasanaethau sydd ar gael yn diwallu anghenion lleol yn dda).  Yn ystod 2014/2015 cafodd prosiectau wedi'u comisiynu eu defnyddio gan unigolion 199,748 o weithiau.[9]

Roedd modelau JAFF i'w gweld ym mhob awdurdod lleol erbyn 2014/15, er bod awdurdodau wedi dal i wneud newidiadau sylweddol i fodelau mewn achosion lle'r oedd y broses ddarparu'n aneffeithlon.  Mae nifer ac ansawdd y cyfeiriadau at JAFF wedi gwella wrth i amser fynd yn ei flaen.  Gwelwyd cynnydd o 20% yn nifer y teuluoedd a gyfeiriwyd at JAFF yn 2014/15, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Mae llif teuluoedd drwy JAFF a TAF wedi gwella hefyd.  Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran y teuluoedd wedi'u hasesu gan JAFF a aeth ymlaen i arwyddo cynllun gweithredu TAF yn 2014/15.[10]  Cwblhaodd cyfanswm o 3,648 o deuluoedd ledled Cymru gynllun gweithredu yn 2014, cynnydd o 48% o'i gymharu â 2013, a chafodd 2,037 o deuluoedd a oedd yn cael eu cefnogi gan TAF ganlyniad llwyddiannus, cynnydd o 61% o'i gymharu â 2013.

O ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r elfen anabledd, mae pob awdurdod lleol yn wahanol.  Yn genedlaethol, mae'r gwariant yn unol â'r dyraniadau a glustnodwyd, er bod saith awdurdod lleol wedi gwario llai ar anabledd na'r dyraniad a glustnodwyd yn y gyllideb yn 2014/15.  Ar hyn o bryd mae bron i draean (saith) o'r awdurdodau wedi sefydlu gweithgareddau newydd sbon ar gyfer pobl anabl ac mae ychydig yn fwy na'u hanner (12) yn dal i ddarparu hyfforddiant penodol sy'n ymwneud â'r elfen anabledd. Mae nifer y teuluoedd ag anghenion oherwydd anabledd sy'n ymuno â'r rhaglen wedi dyblu, o'i gymharu â'r hyn ydoedd flwyddyn yn ôl: mae dwywaith cymaint o deuluoedd wedi cwblhau JAFF (cyfanswm o 1,164) a 974 wedi arwyddo cynllun gweithredu TAF.

---

[6] Mae'r ffigurau'n gwneud cyfanswm o 100.4% ar ôl talgrynnu.

[7] Mae hyn yn cynnwys prosiectau wedi'u comisiynu'n strategol yn unig, ac nid yw'n cynnwys comisiynu darparwyr allanol i weithredu JAFF/TAF.

[8] Mae angen bod yn ofalus iawn wrth ystyried y ffigurau hyn, oherwydd mae'n bosibl bod awdurdodau lleol wedi dosbarthu prosiectau'n wahanol ac nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus bob amser wrth roi gwerthoedd ariannol i brosiectau. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos maint y newid mewn comisiynu dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf o'i chymharu â'r rhaglen Cymorth.

[9] Mae data monitro'n cofnodi sawl gwaith y mae prosiectau wedi cael eu defnyddio ond nid ydynt yn ein galluogi i ddweud beth yw cyfanswm y teuluoedd sy'n defnyddio prosiectau (gan ei bod yn bosibl bod yr un teuluoedd yn defnyddio mwy nag un prosiect, a/neu'n defnyddio'r un prosiect ar fwy nag un achlysur).

[10] Arwyddodd tua 82% o'r teuluoedd a gyfeiriwyd at JAFF gynllun gweithredu TAF yn 2014/15, o'i gymharu â 65% yn 2013/14.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae awdurdodau lleol yn dweud bod mwy o danwariant ar setiau dysgu nag ar unrhyw elfen arall o'r rhaglen. Er hyn, mae adroddiadau cynnydd awdurdodau lleol yn dangos bod gweithgaredd setiau dysgu amlasiantaethol, yn gyffredinol, wedi cael mwy o fomentwm yn ddiweddar. Rhwng Gorffennaf 2014 a Mawrth 2015, sefydlwyd 18 o weithgareddau setiau dysgu amlasiantaethol newydd a chwblhawyd 36.

### 1.3.4 Effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar gynllunio gwasanaethau cymorth i deuluoedd

Bwriadwyd i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf weithredu fel catalydd i annog awdurdodau lleol i ailgynllunio systemau ardaloedd lleol, a datblygu a rhannu gwersi a ddysgwyd ynglŷn â sut i roi gwell cefnogaeth i blant a theuluoedd. Yn fwyaf arbennig, roedd awdurdodau lleol yn cael eu hannog drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i wneud eu gwasanaethau'n gydnaws ag anghenion y boblogaeth leol; monitro ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau; darparu mwy o effeithlonrwydd mewn gwasanaethau; cymryd rhan mewn setiau dysgu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; a sicrhau darpariaeth Gymraeg briodol ar draws y gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi llwyddo i annog awdurdodau lleol i ailgynllunio systemau. Fel y gwelir yn Nhabl 1.1, mae rhanddeiliaid lleol yn credu bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drawsnewid y broses gomisiynu, gwella ansawdd y comisiynu ac ansawdd y ddarpariaeth leol. Er enghraifft, dim ond 40% o'r rhanddeiliaid oedd yn credu bod y broses o gomisiynu prosiectau'n 'dda' cyn Teuluoedd yn Gyntaf; ar ôl newidiadau a gyflwynwyd gan y rhaglen, mae 81% yn gweld gwelliant yn y broses gomisiynu, a'r rhan fwyaf yn priodoli'r gwelliant i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Tabl 1.1 Trosolwg o newidiadau systemau Teuluoedd yn Gyntaf

| | % 'da' cyn cyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf | % yn cyfeirio at 'welliant' ers cyflwyno TyG (newid cf. 2014) | % Gwelliant yn ganlyniad uniongyrchol i TyG neu roedd TyG yn gyfrannwr arwyddocaol (newid cf. 2014) |
|---|---|---|---|
| Y broses o gomisiynu prosiectau ar gyfer cymorth i deuluoedd | 40% | 81% (+8pc) | 81% (-2pc) |
| Ansawdd prosiectau a gomisiynwyd ar gyfer cymorth i deuluoedd | 58% | 82% (+5pc) | 81% (-2pc) |
| Ansawdd ac ystod y ddarpariaeth leol i gefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd | 41% | 74% (+5pc) | 80% (+1pc) |
| Rhannu a dysgu arferion da o fewn ac oddi allan i'ch awdurdod lleol | 44% | 84% (+10pc) | 80% (+1pc) |

*Ffynhonnell: Arolygon rhanddeiliaid Ipsos MORI, 2014 a 2015*

Dylai newidiadau i'r ffordd y mae prosiectau'n cael eu comisiynu a'u monitro gael ei ystyried fel un o lwyddiannau mawr y rhaglen. I'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, roedd comisiynu

gwasanaethau drwy sianeli caffael ffurfiol, â phrosiectau'n cael eu comisiynu a'u datgomisiynu ar sail asesiadau o anghenion, yn newid mawr i'w harferion gweithio. Mae gweithredu'r newidiadau hyn wedi bod yn dipyn o her, ond mae'r awdurdodau lleol a darparwyr yn cydnabod y manteision. Mae newidiadau i'r arferion comisiynu wedi cael eu gwneud gan fod canllawiau polisi Teuluoedd yn Gyntaf yn nodi bod angen tystiolaeth glir o gomisiynu ffurfiol yn seiliedig ar asesiad o anghenion; mae'r canllawiau a'r gofynion monitro hefyd wedi helpu i hybu'r defnydd o dechnegau atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a chanolbwyntio ar fesur ansawdd darpariaeth yn ogystal ag allbynnau. Dros gyfnod, gwelwyd cefnogaeth gynyddol i drefniadau monitro ymhlith awdurdodau lleol wrth iddynt gydnabod y manteision er mwyn gwneud arbedion a gwella ansawdd gwasanaethau.

Mae'r arolwg rhanddeiliaid a'r ymgyngoriadau'n dangos, at ei gilydd, bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn diwallu anghenion poblogaethau lleol: mae 95% o'r rhanddeiliaid yn dweud bod prosiectau a gwasanaethau a gomisiynwyd drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn diwallu anghenion teuluoedd a nodwyd yn 'dda iawn' neu'n 'weddol dda'. Er hyn, mae rhanddeiliaid wedi bod yn llai cadarnhaol yn gyson ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ar gael i deuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan anabledd: dim ond 45% sy'n credu bod darpariaeth leol yn ddigonol er mwyn diwallu anghenion teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan anabledd yn ardal eu hawdurdod lleol. I ryw raddau, gallai hyn adlewyrchu'r sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â datgomisiynu cymorth yn y maes hwn er mwyn aildrefnu gwasanaethau. Er hyn, mae rhai o'r prif anghenion sydd heb eu diwallu'n debygol o fod yn gysylltiedig â chyfyngiadau sy'n atal mynediad at wasanaethau prif ffrwd sydd dan bwysau'n barod, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a chymorth gan Seicolegwyr Addysg. Wrth i wasanaethau prif ffrwd wynebu mwy o doriadau, mae'n debyg y bydd yn anos i Dimau o Amgylch y Teulu gydlynu cymorth priodol i deuluoedd.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data monitro amrywiol i graffu ar ansawdd prosiectau. Mae protocolau monitro newydd ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael effaith ar waith staff awdurdodau lleol (83%) a darparwyr (69%) nad ydynt yn rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Er enghraifft, mae darparwyr yn gwerthfawrogi gweld effaith eu gwaith gyda theuluoedd wrth iddynt ymgeisio am gontractau eraill. Mae yna hefyd nifer o achosion lle mae adolygiadau lefel gwasanaeth ac adolygiadau lefel strategol ar draws darpariaeth ehangach yr awdurdodau lleol wedi'u seilio ar ddata monitro Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gofynion monitro ffurfiol yn gymesur fel bod darparwyr o safon uchel yn gallu ymgeisio am gontractau; mae'r darparwyr nad oeddent wedi sylweddoli'r gwir oblygiadau o ran amser/cyllideb wedi gweld y gofynion monitro'n feichus. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod awdurdodau lleol yn cefnogi'r darparwyr hynny sydd â'r potensial i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, ond nad oes ganddynt y sgiliau na'r systemau i ymwneud â'r prosesau comisiynu a monitro sy'n ofynnol dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae awdurdodau lleol yn dweud eu bod yn annog darparwyr i weithio mewn consortia gydag asiantaethau eraill fel nad yw gofynion monitro'n atal asiantaethau rhag ymgeisio am brosiectau.

Yn ôl y rhanddeiliaid cenedlaethol, un o brif lwyddiannau'r rhaglen oedd sefydlu timau amlasiantaethol effeithiol. Er bod trefniadau gweithio amlasiantaethol wedi'u sefydlu cyn Teuluoedd yn Gyntaf mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf yn dweud bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi ysgogi a rhoi cyfeiriad i gydweithredu amlasiantaethol ac wedi arwain at ddatblygu rhwydweithiau llawer cryfach. Mae staff mewn llawer o wahanol asiantaethau'n frwdfrydig iawn ynglŷn â manteision trefniadau gweithio amlasiantaethol ac yn gweld y manteision i deuluoedd ac i'w sefydliadau eu hunain.

Mae TAF yn dal yn ganolog i drefniadau gweithio amlasiantaethol effeithiol, ac mae cyllid parhaus i TAF yn hanfodol er mwyn cynnal y trefniadau gweithio amlasiantaethol ar yr un raddfa ag y maent yn bodoli ar hyn o bryd. Y tu hwnt i TAF, mae lle i wella'r modd y mae gwasanaethau eraill Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu cydlynu yn y pwynt darparu: nid yw teuluoedd sy'n defnyddio prosiectau wedi'u comisiynu heb TAF bob amser yn gweld gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae posibilrwydd hefyd y gallai mwy o awdurdodau ddatblygu systemau sy'n sail i gydweithio - er enghraifft cronfeydd data cyffredin, cyfarwyddiaduron darparwyr lleol - er mwyn sicrhau bod darpariaeth leol yn gydgysylltiedig yn y pwynt darparu, a bod trefniadau amlasiantaethol yn gynaliadwy. Yng ngham nesaf y broses o ddarparu'r rhaglen, mae'n bosibl y byddai'n werth edrych hefyd i ba raddau y gallai partneriaethau a darpariaeth ar draws awdurdodau wella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau; gallai argymhellion Comisiwn Williams ysgogi mwy o weithio ar draws ffiniau yn y dyfodol.[11]

Mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd wedi annog datblygu a rhannu gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau. Cyflwynodd staff y rhaglen sylwadau cadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â sut roedd elfen ddysgu'r rhaglen wedi gweithio, ac ynglŷn â'r effeithiau cysylltiedig. Er hyn, ymddengys bod dysgu lleol *anffurfiol* wedi cael mwy o effaith ar arferion awdurdodau lleol na dysgu ffurfiol. Mae pwyslais y rhaglen ar asesu anghenion, monitro, a defnyddio adborth parhaus sy'n deillio o weithredu'r rhaglen hefyd wedi bod yn allweddol er mwyn cefnogi diwylliant 'profi a dysgu'. Yn gyffredinol, ymddengys bod awdurdodau lleol wedi canolbwyntio'n bennaf ar sefydlu eu dulliau gweithredu lleol, a defnyddio dysgu lleol i fireinio prosesau, yn hytrach na chwilio am gyfleoedd i ddysgu ar draws awdurdodau gael effaith fwy sylfaenol ar strategaeth a chynllunio. Efallai y byddai partneriaid lleol wedi deall bwriadau setiau dysgu ffurfiol yn well pe bai disgwyliadau cenedlaethol wedi cael eu mynegi'n well, yn enwedig mewn cysylltiad â'r dyhead i weld awdurdodau'n cydweithio.

Mae data arolygon rhanddeiliaid yn cyfleu darlun cymysg o gynnydd awdurdodau yng nghyswllt darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd tua 72% o'r rhanddeiliaid yn credu bod y prosiectau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu comisiynu yn eu hawdurdod lleol yn diwallu anghenion teuluoedd yng nghyswllt yr iaith Gymraeg yn dda iawn neu'n weddol dda. Er hyn, dim ond hanner y rhanddeiliaid (52%) oedd yn cytuno bod y gwasanaethau a'r adnoddau sy'n cael eu darparu gan eu sefydliad drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn diwallu anghenion teuluoedd yng nghyswllt yr iaith Gymraeg. Dywedodd awdurdodau ei bod yn anodd recriwtio staff â'r sgiliau priodol a oedd yn meddu ar y gallu ieithyddol gofynnol.

### 1.3.5 Effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar y ffordd y mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn cael eu darparu

Mae canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf yn nodi nifer o egwyddorion a ddylai fod yn nodweddiadol o ddarpariaeth JAFF, TAF, prosiectau a gwasanaethau anabledd: dylai cymorth **ganolbwyntio ar deuluoedd** yn hytrach nag aelodau unigol o deuluoedd; dylai fod yn **bwrpasol** er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion y mae teuluoedd eisiau rhoi sylw iddynt ac adeiladu ar eu cryfderau; dylai gael ei ddarparu drwy dimau **amlasiantaethol** integredig sy'n gweithio gyda'i gilydd; dylai fod yn **rhagweithiol** fel bod teuluoedd yn cael help yn gynnar cyn i'w problemau waethygu; a dylai fod yn **ddwys**. Mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod yr egwyddorion hyn yn gadarn. Lle'r oedd teuluoedd astudiaethau achos wedi cael profiadau gwael o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, roedd hynny'n aml oherwydd bod un o'r egwyddorion gweithredu hyn ar goll yn y gefnogaeth a roddwyd iddynt.

Mae'r egwyddorion gweithredu wedi'u sefydlu mewn prosesau JAFF a TAF. Mae'r rhanddeiliaid lleol yn hyderus bod JAFF yn caniatáu i bob aelod o'r teulu gyfrannu, a'i fod yn

[11] https://assemblyinbrief.wordpress.com/tag/williams-commission/

ffurfio sail ar gyfer cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer teuluoedd. Mae TAF yn annog asiantaethau i feddwl yn greadigol, er mwyn cynllunio cymorth pwrpasol i deuluoedd sy'n seiliedig ar eu hanghenion, yn hytrach na pha wasanaethau y gallant eu cynnig. Mae agwedd, hyblygrwydd a sgiliau gweithwyr allweddol yr un mor hanfodol â'r systemau JAFF a TAF: roedd teuluoedd yn aml yn cyfeirio at y gweithwyr allweddol fel y rhan fwyaf effeithiol o'r ymyriad. Mewn gwirionedd, roedd teuluoedd â phrofiadau negyddol o wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn aml yn dweud bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau diolch i'r gweithiwr allweddol yn unig.

Mae rhai o'r egwyddorion gweithredu yn fwy amlwg yn JAFF a TAF nag yn y prosiectau strategol sy'n cael eu darparu dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae'n bosibl y gellid ymestyn rhai arferion yn ehangach. Er enghraifft, efallai y gallai ymarferwyr mewn prosiectau wedi'u comisiynu chwarae rôl fwy allweddol er mwyn nodi anghenion ychwanegol mewn teuluoedd y tu hwnt i'r defnyddiwr gwasanaeth uniongyrchol, ac i weithio gyda'r achosion hyn neu eu cyfeirio'n briodol.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cyrraedd teuluoedd sydd ag anghenion amrywiol iawn. Mae trothwyon JAFF/TAF yn uchel mewn rhai awdurdodau lleol (er nad ym mhob un), ond mae teuluoedd sydd ag anghenion llai cymhleth yn gallu cael budd o brosiectau wedi'u comisiynu heb gymorth TAF. Mae llawer o awdurdodau sydd â throthwyon uwch wedi cyflwyno gwasanaethau er mwyn cyfeirio teuluoedd ag anghenion lefel is at gymorth priodol (er enghraifft, mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno gwasanaethau ffôn). Fodd bynnag, mae ymarferwyr a Chydgysylltwyr Teuluoedd yn Gyntaf yn credu bod natur teuluoedd sy'n defnyddio TAF yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol ar gyfer y rhaglen, yn bennaf gan fod trothwyon uwch ar gyfer cymorth statudol yn cael effaith ganlyniadol ar atgyfeiriadau Teuluoedd yn Gyntaf.

### 1.3.6 Effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar ganlyniadau teuluoedd

Mae'r data canlyniadau a thystiolaeth astudiaethau achos yn dangos y gall teuluoedd sy'n cael eu cefnogi drwy TAF gael canlyniadau cadarnhaol a all drawsnewid eu bywydau. Mae awdurdodau lleol yn cofnodi bod achos wedi cael ei 'gau â chanlyniad llwyddiannus' pan fo'r amcanion a nodwyd yng nghynllun gweithredu TAF wedi cael eu cyflawni. Mae'r amcanion hyn yn amrywio gan ddibynnu ar fodel y TAF ac anghenion teuluoedd unigol. Mae'r ffordd y mae canlyniadau llwyddiannus yn cael eu diffinio'n amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall: mae ymarferwyr bob amser yn chwarae rôl wrth ddiffinio llwyddiant, ond mae'r graddau y mae teuluoedd yn cyfrannu tuag at y broses o benderfynu a yw'r achos yn cael ei gategoreiddio fel un 'llwyddiannus' yn amrywio. Cofnododd tua 56% o'r teuluoedd a gofnodwyd drwy TAF ganlyniadau llwyddiannus ar gyfer eu hamcanion pan gafodd eu TAF ei gau. Ymhlith y teuluoedd a oedd wedi'u heffeithio gan anabledd, cofnododd 66% ganlyniad llwyddiannus ar gyfer eu hamcanion. Mae cryn dipyn yn fwy o deuluoedd yn cofnodi canlyniadau ar gyfer canlyniadau 'meddalach' na mesurau haws eu mesur, sy'n dangos pa mor anodd yw arsylwi ar effaith Teuluoedd yn Gyntaf ar lefel dangosyddion poblogaeth cenedlaethol. Nid yw'n syndod bod yr astudiaethau achos yn nodi bod cynnydd â chanlyniadau 'meddalach' yn un o'r rhagofynion ar gyfer sicrhau canlyniadau caled.[12]

Mae'n werth ystyried beth sy'n cael ei ystyried fel llwyddiant o safbwynt canlyniadau teuluoedd, a pha bryd y mae manteision llawn cefnogaeth yn debygol o gael eu gweld. Yn ymarferol, nid yw system fonitro nad yw'n cofnodi cynnydd teuluoedd ar ôl gadael y rhaglen yn debygol o allu dangos effaith lawn Teuluoedd yn Gyntaf, yn enwedig ymyriadau byrdymor. Gellid diffinio llwyddiant ar gyfer ymyriadau byrdymor fel galluogi teuluoedd i fyw'n fwy

[12] Mae canlyniadau 'meddal' yn cynnwys pethau fel gwella cysylltiadau o fewn y teulu, a gwella lles aelodau o'r teulu. Mae canlyniadau 'caled' yn cynnwys presenoldeb plant yn yr ysgol, neu rieni'n cael gwaith.

annibynnol drwy eu gwneud yn gryfach pan fydd angen iddynt wynebu heriau eraill yn y dyfodol; a'u galluogi i gyflawni eu potensial yn y dyfodol, heb fod angen cymaint o gymorth sy'n cael ei ariannu gan y wladwriaeth. Dan y cysyniad hwn o lwyddiant, ni fydd y data monitro presennol – nad ydynt yn cofnodi canlyniadau teuluoedd ar ôl iddynt adael y rhaglen, nac yn mesur i ba raddau y mae ar deuluoedd angen rhagor o gymorth sy'n cael ei ariannu gan y wladwriaeth – yn cofnodi llawer o'r effaith y gallai'r rhaglen ei chael ar ganlyniadau caled na'r arbedion ariannol cysylltiedig a fyddai'n cael eu gwneud gan y wladwriaeth.

Mae achosion sy'n para'n hirach yn fwy tebygol o gofnodi cynnydd ar gyfer canlyniadau caled o fewn ffrâm amser cefnogaeth TAF. Efallai na fydd angen ymestyn ymyriadau er mwyn i bob teulu allu cyflawni yn yr hirdymor, a byddai ymestyn ymyriadau'n lleihau llif teuluoedd drwy'r rhaglen. Er hyn, ymddengys bod gan rai awdurdodau lleol brotocolau sy'n golygu bod y rhan fwyaf o achosion TAF, neu bob un ohonynt, yn cau cyn pen chwe mis, ac efallai y byddai'n werth sicrhau bod ymarferwyr yn gallu ymestyn cymorth TAF mewn achosion lle gallai hynny fod yn ddefnyddiol.

Mae annog teuluoedd yn dal yn anodd, ac mae tua un o bob pum teulu'n ymddieithrio oddi wrth wasanaethau cyn i achosion gael eu cwblhau. Ond mae'n anodd dehongli'r data hyn: dywedodd yr ymarferwyr fod ymddieithriad teuluoedd yn gallu adlewyrchu'r ffaith fod teuluoedd wedi cyflawni eu hamcanion yn fuan a'u bod yn gadael y rhaglen cyn arwyddo cynlluniau TAF yn derfynol. Gallai hefyd adlewyrchu'r ffaith nad yw teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth yn barod i ymgysylltu eto. Ar ben hyn, gallai canolbwyntio ar ffigurau ymddieithrio ddarparu cymhellion gwrthnysig a fyddai'n achosi i staff dargedu teuluoedd 'haws eu cyrraedd'.

Mae dadansoddiad ariannol enghreifftiol a wnaethpwyd fel rhan o elfen astudiaethau achos y gwerthusiad yn dangos y gallai Teuluoedd yn Gyntaf arbed llawer o arian i'r wladwriaeth drwy helpu teuluoedd i osgoi argyfyngau sydd angen ymyriadau cymharol gostus. Er enghraifft, gallai'r cymorth a ddarparwyd i un teulu mewn astudiaeth achos (gan gymryd bod eu canlyniadau'n cael eu cynnal heb i'r teulu orfod cael rhagor o gymorth, a chan gymryd bod asesiad y teulu o'r trywydd y byddent wedi'i ddilyn heb gymorth Teuluoedd yn Gyntaf yn gywir) fod yn werth tua £77,000 y flwyddyn nes bydd y plentyn yn dod yn oedolyn. Fodd bynnag, mae ymyriadau Teuluoedd yn Gyntaf yn seiliedig ar amcanion sy'n cael eu pennu gan deuluoedd nad ydynt o bosibl yn arwain at gynnydd tuag at ganlyniadau caled – ac yn aml iawn nad ydynt yn arwain at gynnydd o'r fath, o leiaf pan mae achosion yn cau – ac mae ar rai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys a pharhaol gan weithiwr allweddol er nad yw'n ymddangos bod llawer o siawns y byddant yn cael llawer o fudd ymarferol. Gan nad oes amcangyfrif o ychwanegedd ar gyfer y rhaglen mae'n anos dadansoddi'r gost. Byddai angen data ystadegol, cadarn ar y canlyniadau hirdymor i deuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a grŵp cymhariaeth o deuluoedd tebyg nad ydynt yn ymwneud â'r rhaglen, er mwyn gwneud casgliadau pendant ynglŷn â manteision economaidd y rhaglen.

Roedd y gwerthusiad yn awgrymu nifer o ffyrdd yr oedd Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo dulliau o weithio gyda theuluoedd y credai ymarferwyr a theuluoedd eu bod yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Roedd gweithwyr allweddol yn gallu siarad ar ran teuluoedd er mwyn cael 'atebion cyflym' i broblemau a oedd yn wynebu teuluoedd, er mwyn rhoi'r gallu a'r cyfle i deuluoedd ddechrau mynd i'r afael â phroblemau eraill. Roedd gweithwyr allweddol hefyd yn darparu cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol mewn ffyrdd amrywiol, a theimlai'r teuluoedd fod hyn wedi'u helpu i allu datrys eu problemau ar eu pen eu hunain. Roedd y teuluoedd yn aml yn cyfeirio at strategaethau ymdopi roedd gweithwyr allweddol wedi'u dysgu iddynt, ac roeddent yn dal i ddefnyddio'r strategaethau hyn ar ôl iddynt fod yn ymwneud â Theuluoedd yn Gyntaf. Cyfeiriodd y teuluoedd at amrywiol agweddau eraill ar

gefnogaeth gweithwyr allweddol a oedd yn ddefnyddiol, gan gynnwys trefnu gweithgareddau i deuluoedd, a sicrhau bod oedolion ar gael i fod yn fodelau rôl cadarnhaol i'r plant.

Tabl 1.2 Trosolwg o lwyddiannau a heriau rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

| | Llwyddiannau | Heriau |
|---|---|---|
| Rheolaeth genedlaethol | ▪ Mae arweiniad a threfniadau llywodraethu cenedlaethol y rhaglen, gan gynnwys y swyddogaeth Rheoli Cyfrifon, yn cael eu canmol yn fawr gan awdurdodau lleol.<br>▪ Mae timau lleol yn gwerthfawrogi cael cyswllt wyneb yn wyneb ag aelodau o'r tîm cenedlaethol, a chael cysylltu â'r Rheolwyr Cyfrifon er mwyn datrys problemau'n sydyn. | ▪ Gan fod yr awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol fathau o fodelau cyflawni lleol a gwahanol ddulliau monitro mae'n anodd i'r tîm cenedlaethol a Rheolwyr Cyfrifon gymharu perfformiad awdurdodau lleol er mwyn nodi arferion arbennig o dda neu wael.<br>▪ Mae'r hyblygrwydd a ganiateir yng nghanllawiau'r rhaglen yn cael ei weld yn ddefnyddiol i ryw raddau, ond mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol yn cydnabod erbyn hyn y byddai canllawiau mwy rhagnodol ar ddechrau'r rhaglen wedi bod yn fwy buddiol. |
| Cynllun y rhaglen a chynnydd â'r gwaith o'i gweithredu | ▪ Mae adborth a phrofiadau teuluoedd ac ymarferwyr yn cadarnhau bod egwyddorion cynllunio a gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf yn gadarn.<br>▪ Mae prif elfennau'r rhaglen – gan gynnwys JAFF, TAF a chomisiynu – a'r canllawiau ynglŷn â sut y dylid eu gweithredu, wedi helpu i ysgogi newid sefydliadol sylweddol mewn awdurdodau lleol. Mae rhanddeiliaid lleol yn hyderus bod y rhaglen wedi ysgogi gwelliannau o ran ansawdd a threfniadau | ▪ Efallai y byddai'n werth ailystyried a yw cynllun a dull gweithredu'r rhaglen yn darparu'r budd gorau posibl i deuluoedd sydd ag anghenion mwy cymhleth nag y rhagwelid yn wreiddiol y byddai rhaglen ymyriadau cynnar yn eu cefnogi. |

| | | |
|---|---|---|
| | darparu gwasanaethau lleol i deuluoedd, a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu.<br>▪ Mae adborth ansoddol yn cadarnhau bod prif egwyddorion cyflawni'r rhaglen – canolbwyntio ar deuluoedd, pwrpasol, integredig, rhagweithiol, dwys a lleol – yn bwysig. Mae JAFF, TAF a gweithwyr allweddol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r egwyddorion hyn. | |
| Comisiynu strategol | ▪ Mae gofynion y rhaglen wedi helpu i drawsnewid comisiynu drwy ddefnyddio prosesau caffael ffurfiol, comisiynu sy'n seiliedig ar asesiadau o anghenion, a dulliau monitro lle mae atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau er mwyn adolygu ansawdd y gwaith o weithredu prosiectau.<br>▪ Mae timau awdurdodau lleol yn monitro'r ffordd y mae darparwyr yn cyflenwi gwasanaethau ac yn herio safonau isel. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data er mwyn gwneud arbedion yn y broses gomisiynu.<br>▪ Mae comisiynu consortia ('pecynnau') wrth gyflenwi gwasanaethau i deuluoedd wedi hybu cydweithredu ar draws asiantaethau darparu, ac wedi helpu i wneud | ▪ Nid oes llawer o weithgareddau comisiynu *ar draws* awdurdodau lleol ar hyn o bryd. O ystyried y potensial i arbed arian drwy weithio ar draws awdurdodau lleol, efallai y byddai'n werth annog hyn ymhellach yn y dyfodol.<br>▪ Pan fydd gwasanaethau'n cael eu hailgomisiynu, yr her fydd cynnal safon uchel y gwasanaethau yn ystod y cyfnod ailgomisiynu. Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gofynion monitro'n gymesur fel bod asiantaethau darparu'n barod i ymgeisio am gontractau o fewn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. |

| | | |
|---|---|---|
| | arbedion.<br>▪ Mae awdurdodau lleol ac asiantaethau darparu wedi datblygu sgiliau a data defnyddiol drwy gynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth fonitro. Mae sgiliau a data'n cael eu cymhwyso y tu hwnt i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. | |
| Anabledd | ▪ Mae elfen anabledd y rhaglen wedi arwain at gyflwyno mathau newydd o ddarpariaethau anabledd, gan gynnwys gwasanaethau sydd wedi'u targedu tuag at deuluoedd cyfan (yn hytrach nag unigolion anabl) a gwasanaethau cyn diagnosis. | ▪ Mae cynnydd wrth weithredu elfen anabledd y rhaglen wedi bod yn gymharol araf. Mae addasiadau i ddarpariaeth anstatudol ar gyfer pobl anabl yn fater sensitif iawn. Mae hyn wedi golygu bod angen llawer o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn tawelu ofnau cymunedau a'u paratoi ar gyfer newidiadau sy'n gwneud y ddarpariaeth yn gydnaws ag egwyddorion Teuluoedd yn Gyntaf.<br>▪ Mae rhanddeiliaid lleol wedi bod yn llai cadarnhaol yn gyson ynglŷn â safon ac ystod y ddarpariaeth sydd ar gael i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd o'u cymharu â gwasanaethau i deuluoedd eraill. I ryw raddau mae hyn yn adlewyrchu toriadau i wasanaethau craidd nad ydynt o fewn cwmpas Teuluoedd yn Gyntaf. |
| Gwaith aml-asiantaethol | ▪ Er bod rhywfaint o waith amlasiantaethol yn cael ei wneud cyn Teuluoedd yn | ▪ Mae sicrhau cyfleoedd i dimau Teuluoedd yn Gyntaf gydlynu gwasanaethau pan mae |

| | | |
|---|---|---|
| | Gyntaf, mae'r rhaglen wedi cyflymu'r cynnydd drwy gynyddu nifer yr asiantaethau sy'n cydweithredu a'r graddau y maent yn cydweithredu.<br><br>▪ Mae TAF yn elfen allweddol o waith amlasiantaethol ac mae angen cyllid parhaus ar gyfer TAF er mwyn cadw gwaith amlasiantaethol ar yr un raddfa. | gwasanaethau craidd yn cael eu cwtogi yn her fawr, yn enwedig ym maes darpariaeth ar gyfer pobl anabl.<br><br>▪ Nid yw'n hawdd ennyn diddordeb partneriaid o bob sector, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau sydd eisoes o dan bwysau fel timau iechyd ac iechyd meddwl.<br><br>▪ Gallai mwy o systemau i gefnogi gweithio ar y cyd, er enghraifft cronfeydd data ar y cyd, helpu i gynnal gwaith amlasiantaethol. |
| Ymyrryd yn gynnar | ▪ Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi helpu i wella proffil a hyrwyddo gwerth ymyriadau cynnar ymhlith llawer o ymarferwyr a thimau awdurdodau lleol.<br><br>▪ Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio ar draws y sbectrwm anghenion. Mae trothwyon ar gyfer mynediad at TAF yn amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall, ac mewn rhai achosion maent wedi'u gosod yn gymharol uchel. | ▪ Mae toriadau i wasanaethau a throthwyon uwch ar gyfer mynediad at wasanaethau cymdeithasol yn golygu bod Teuluoedd yn Gyntaf yn aml yn gweithredu ar lefel angen uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Gallai rhagor o doriadau i wasanaethau cyhoeddus wneud y duedd hon yn waeth, a thanseilio cefnogaeth i ymyriadau cynnar.<br><br>▪ Mae ymarferwyr yn nodi ei bod yn bosibl na fydd teuluoedd yn barod i dderbyn cymorth nes y bydd hi'n argyfwng arnynt: un her amlwg wrth geisio ymyrryd yn gynnar yw'r ffaith nad yw teuluoedd bob amser eisiau'r ymyriad. |
| Canlyniadau i deuluoedd | ▪ Mae blwyddyn olaf y gwerthusiad presennol yn awgrymu bod y rhaglen yn aeddfedu, ag atgyfeiriadau mwy priodol dros gyfnod. | ▪ Mae teuluoedd yn ymddieithrio yn broblem o hyd, â thua un o bob pum teulu sy'n dechrau cynllun TAF yn ymddieithrio cyn ei gwblhau. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae llif y teuluoedd drwy JAFF a TAF wedi cynyddu, ac mae cyfran uwch o deuluoedd ym mhob cam yn symud ymlaen i'r nesaf.  Mae hyn hefyd yn wir am deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd.<br>▪ Mae tua 56% o'r teuluoedd yn dweud eu bod wedi cael canlyniadau llwyddiannus ar gyfer eu hamcanion eu hunain pan maent yn gadael y rhaglen.  Ymhlith y teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd, mae 66% yn cofnodi canlyniadau llwyddiannus.<br>▪ Mae achosion sy'n para am fwy o amser yn fwy tebygol o gofnodi canlyniadau llwyddiannus o fewn ffrâm amser cefnogaeth TAF. | ▪ Gall rheoli ymadawiad teuluoedd o'r rhaglen fod yn anodd hefyd, gan fod rhai teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth iawn yn tueddu i fynd yn ddibynnol ar gefnogaeth y gweithiwr allweddol.<br>▪ Mae diffyg data monitro hirdymor am ganlyniadau teuluoedd yn golygu ei bod hi'n amhosibl dod i gasgliad ynglŷn ag effaith lawn y rhaglen, nac asesu faint o arbedion y gallai eu gwneud.  Yn bennaf oll, mae'r ymyriad yn ceisio datblygu gwytnwch teuluoedd, gan roi iddynt y sgiliau i ymateb yn fwy rhagweithiol i faterion yn y dyfodol.  Nid yw data monitro byrdymor yn caniatáu asesiad o'r graddau y cyflawnwyd yr uchelgais hon.  Nid yw'n hawdd ychwaith cael tystiolaeth o gynnydd teuluoedd â'r meysydd canlyniadau 'meddalach' hyn.<br>▪ Er bod dadansoddiadau ariannol enghreifftiol o astudiaethau achos teuluoedd yn dangos bod potensial i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf arbed llawer iawn o arian i'r wladwriaeth drwy helpu teuluoedd i osgoi canlyniadau hirdymor gwael, nid yw'r data canlyniadau sydd ar gael yn caniatáu i ni fesur i ba raddau y byddai hyn yn digwydd. |
| Dysgu | ▪ Mae tystiolaeth gref o ddiwylliant dysgu ymhlith awdurdodau lleol.  Mae timau Teuluoedd yn Gyntaf yn ymateb i adborth a data monitro lleol er mwyn mireinio | ▪ Nid yw setiau dysgu wedi bod mor arwyddocaol â dysgu anffurfiol er mwyn ysgogi gwelliannau i'r rhaglen.  Mae heriau penodol yn gysylltiedig â setiau dysgu ffurfiol mawr |

| | | |
|---|---|---|
| | cynllun y rhaglen a'r ffordd y mae'n cael ei gweithredu dros gyfnod.<br>▪ Ym mlwyddyn olaf y gwerthusiad gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth bod gweithgaredd dysgu ffurfiol wedi cael mwy o fomentwm, a bod setiau dysgu newydd wedi cael eu ffurfio. | (e.e. timau'n gyndyn o fod yn agored am yr heriau y maent yn eu hwynebu), ac anawsterau wrth gymhwyso dysgu pan mae awdurdodau lleol yn defnyddio modelau cyflawni mor wahanol. |